Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WCVA
Wales Council for Voluntary Action

unitytrust bank

Sylfaen i'ch llwyddiant

# Sylfaen i'ch llwyddiant



## Benthyciadau rhwng £250,000 a £5,000,000 i fudiadau'r trydydd sector

Gan Unity Trust Bank mewn partneriaeth â WCVA

Os hoffech gael gwybod sut y gallai bancio gyda Unity helpu'ch mudiad chi i gyflawni mwy, ffoniwch ni:

0345 140 1000   us@unity.co.uk   @unitytrustbank   www.unity.co.uk/WCVA

Y cymorth y mae arnoch ei angen i wneud gwahaniaeth.

# Gan fod ar bawb angen help llaw.

**A oes ar eich mudiad chi angen chwistrelliad o arian ychwanegol i helpu gyda phrosiect adeiladu newydd neu fel rhan o fenter ar y cyd gyda mudiad tebyg i chi? Nawr, gyda benthyciad am bris cystadleuol gan Unity Trust Bank mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), gallwch wneud hynny.**

Rydym ar hyn o bryd yn cymryd ceisiadau gan elusennau a mudiadau gwirfoddol am fenthyciadau'n amrywio o £250,000 i £5m, gan roi'r cyfle i chi fuddsoddi yn eich seilwaith adeiladu a thorri'ch costau rhentu, prydlesu a gwasanaethau. Gallai hyd yn oed helpu eich llif arian os gallwch roi gofod nad ydych yn ei ddefnyddio ar osod. Yn y pen draw, mae benthyciad gennym ni'n rhoi'r rhyddid i chi ailgyfeirio'r arian hwnnw at ddarparu gwell wasanaethau i'r bobl rydych yn eu cefnogi.

### Gweledigaeth a rennir

Yma yn Unity Trust Bank, rydym yn deall y materion y mae mudiadau gwirfoddol yn eu hwynebu, yn enwedig mewn cyfnod anodd fel hwn. Dyna pam, drwy gydweithio â WCVA, y gobeithiwn y bydd y gronfa fenthyciadau hon yn ei gwneud yn haws i fudiadau elusennol weithio gyda'i gilydd i leihau costau a rhannu adnoddau.

**Mae'r gronfa newydd wedi cael cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau:**

**"Mae mudiadau'r trydydd sector yn ymateb i anghenion cymunedau Cymru ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol sy'n cael eu defnyddio gan bobl ledled Cymru bob dydd.**

**"Mae'n bleser gennyf weld y trydydd sector yn dod o hyd i ffyrdd newydd o ariannu ei waith. Mae'r arian sylweddol y bydd y cynllun newydd hwn yn ei ddarparu i fudiadau ledled Cymru yn dderbyniol iawn."**

**Carl Sargeant,**
y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Astudiaeth achos

# Benthyciad Unity yn arwain at fwrlwm mewn canolfan i bobl ifanc.

**Mae Tom Jones, Stereophonics, cyflwynydd US X Factor Steve Jones a llawer o sêr eraill y byd pop a'r cyfryngau wedi chwarae neu gyflwyno yn stiwdios enwog Cymru - The Pop Factory – dros y 12 mlynedd diwethaf. Bellach, mae'r elusen Plant y Cymoedd wedi prynu'r lleoliad gyda benthyciad gan Unity Trust Bank mewn partneriaeth â WCVA ac mae'n ei droi'n ganolfan fywiog ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig leol sydd am gael hyfforddiant yn y cyfryngau a cherddoriaeth.**



Bob blwyddyn, fe fydd miloedd o bobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau yn dod i'r ffatri, a oedd yn arfer cynhyrchu diodydd pigog Corona, i gael cyrsiau a phrofiad gwaith go iawn gyda bandiau, cynhyrchwyr teledu ac eraill.

Mae'r elusen, sydd wedi bod ar waith am 34 o flynyddoedd, wedi benthyg £395,000 dros 25 mlynedd i gyfuno benthyciadau eraill ac arbed arian gwerthfawr. Yn ogystal â chreu'r ganolfan hyfforddi yn y cyfryngau, fe fydd y benthyciad yn cynorthwyo datblygu canolfan breswyl yn ardal y Gŵyr.

Dywedodd Richard Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid Plant y Cymoedd: "Mae'r ffatri'n bwysig gan ei bod yn ein galluogi i ddarparu cymorth rhagorol, uniongyrchol i bobl ifanc sydd â'u golygon ar yrfa yn y cyfryngau. Mae'n golygu y gallwn roi siawns i bobl ifanc."

Aeth Richard ymlaen i ddweud, "Roeddem yn bancio gyda Unity yn barod ac yn gwybod ei bod yn llawer haws delio gyda nhw na gyda banc arferol, ond cawsom ein synnu ar yr ochr orau gan y cyfraddau llog. Mae'r benthyciad hwn yn arbed tua £12,000 y flwyddyn i ni a fydd yn ein galluogi i ymestyn ein cyllid ymhellach fyth. Mae Unity yn gweithio i ni a byddem yn eu hargymell i fudiadau eraill."







"Ochr yn ochr â'n cefnogaeth ein hunain ar gyfer y trydydd sector, bydd y gronfa hon yn cefnogi cynaliadwyedd ac yn diogelu gwasanaethau'r sector, heb sôn am roi hwb i economïau lleol ledled Cymru."

**Carl Sargeant,**
y Gweinidog Llywodraeth
Leol a Chymunedau



# Adeiladu dyfodol gwell.

**Unity Trust Bank yw un o ddarparwyr gwasanaethau bancio mwyaf blaenllaw'r DU i'r sector elusennol a gwirfoddol. Mae ein hanes o weithio gyda rhai o elusennau a mudiadau gwirfoddol mwyaf adnabyddus y wlad wedi rhoi cipolwg unigryw i ni ar anghenion mudiadau gwirfoddol. Rydym yn deall pwy ydych chi, eich amcanion a'ch gweledigaeth, ac rydym mewn safle perffaith i'ch helpu i gyflawni'ch amcanion.**

Dyma pam mae Unity Trust Bank wedi ffurfio partneriaeth â WCVA i ddylunio benthyciad wedi'i deilwra'n arbennig i anghenion mudiadau fel chi. Mae'r gronfa fenthyciadau wedi'i chreu nid yn unig i'ch helpu i gyflawni'ch amcanion fel mudiad ond hefyd i symbylu elusennau i gydweithio er mwyn lleihau costau a rhannu gwasanaethau, adnoddau ac arbenigedd. Wedi'r cwbl, mewn sawl ffordd, rydym i gyd yn rhannu'r un weledigaeth – helpu pobl.

### Benthyciad wedi'i wneud i chi

Mae'r gronfa fenthyciadau wedi'i datblygu'n benodol i'ch helpu i fuddsoddi yn eich seilwaith adeiladu. Felly os ydych am ymestyn adeilad sy'n sefyll yn barod neu fuddsoddi mewn adeilad newydd, gallai'r fenter newydd hon fod yn berffaith i chi roi cychwyn ar eich prosiect. Ein gobaith yw y dylai'r gronfa symbylu mudiadau elusennol i greu cynghreiriau er mwyn cydweithio mewn canolfannau busnes cymunedol.

### Y broses gyfreithiol a phrisio

Er mwyn symleiddio'r broses, rydym wedi ymuno ag un o gwmnïau proffesiynol mwyaf blaenllaw Cymru – Capital Law a fydd ar gael i gynnig eu gwasanaethau am ffioedd ffafriol sefydlog*. Rhoddir y manylion llawn pan wneir cais. Mae croeso i chi, wrth gwrs, ddefnyddio ymgynghorwyr o'ch dewis chi.**

BK Bruton Knowles

CAPITAL LAW

* I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Capital Law yn uniongyrchol. Ffôn 0333 2400 489 www.capitallaw.co.uk

** Bydd gofyn i chi benodi'ch cyfreithiwr eich hun os ydych am brynu eiddo a/neu os oes angen cyngor cyfreithiol annibynnol arnoch.

# Sut i ymgeisio.

### Cyfraddau'n dechrau o gyn lleied â 4%

Mae posib trafod y cyfraddau yn ôl pob achos unigol, ond fel arfer defnyddir y Gyfradd Sylfaenol plws 2.25%, gyda chyfradd leiaf o 4%. Mae cyfraddau sefydlog ar gael am hyd at bum mlynedd.

### Ffïoedd

Bydd ffi trefnu o 1.5% yn daladwy ar dderbyn unrhyw gynnig benthyciad.

### Telerau

I fod yn gymwys, rhaid i'ch mudiad fod yn aelod o WCVA. Yn gyfan gwbl, mae £30m yn y gronfa fenthyciadau i'w dosbarthu dros 5 mlynedd, £6m y flwyddyn.

Yn gyffredinol, cynigir benthyciad hyd at werth 75% o'r eiddo, ond fe fydd cymarebau uwch rhwng benthyciadau a gwerth (LTV) yn cael eu hystyried pan fo sicrwydd digonol. Mae cyfnodau ad-dalu o hyd at 30 mlynedd ar gael.

### Camau nesaf

Rydym wedi gwneud popeth y gallwn ni i wneud y drefn ymgeisio a chyllido mor syml â phosib drwy ddefnyddio ein tîm cyfreithiol proffesiynol ac ymgynghorwyr o WCVA. Gan hynny, gallwn leihau costau i chi, symleiddio'r broses a chynorthwyo gyda chydweithredu rhwng mudiadau sy'n ystyried gweithio gyda'i gilydd.



**Os credwch y gallai hyn fod yn fuddiol i'ch mudiad chi, dechreuwch y broses ymgeisio drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu ebostio help@wcva.org.uk.**

www.unity.co.uk/WCVA

**Rwy'n fwy na pharod i drafod eich anghenion bancio â chi felly mae croeso i chi gysylltu â mi**

**Jon Field**
Unity Trust Bank plc,
PO Box 401, Caerdydd, CF11 1LE
Ffôn: 029 2064 4422
Ffôn symudol: 07885 843 682
Ebost: jon.field@unity.co.uk



0345 155 3355 us@unity.co.uk @unitytrustbank www.unity.co.uk/WCVA

We are a Living Wage Employer

Y banc Cyflog Byw achrededig cyntaf

Mae Unity Trust Bank plc yn cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Mae Unity Trust Bank ar gofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan rif 204570. Swyddfa Gofrestredig: Nine Brindleyplace, Birmingham, B1 2HB. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 1713124. Caiff galwadau eu recordio ac o bosib eu monitro er dibenion diogelwch, ansawdd a monitro.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, elusen gofrestredig 218093, cwmni cyfyngedig drwy warrant 425299